



Elusen Gofrestredig Rhif 507948

## Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

### CYMDEITHAS BOB OWEN

Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn  
(Awst-Gorffennaf neu  
Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r  
Trysorydd

#### SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dr Rhidian Griffiths

Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Aberystwyth, Ceredigion

#### Ysgrifennydd:

Gwyn Tudur Davies

11 Maes yr Afon, Aberystwyth  
Ceredigion SY23 1PL  
(01970) 623174

#### Trysorydd:

Miss Anne K. Till

Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street  
Ceredigion SY24 5AD  
(01970) 820235

#### Trefnydd Hysbysebion:

Gwilym Tudur

Siop y Pethe, Aberystwyth  
Ceredigion  
(01970) 617120

#### Golygydd:

Mel Williams

Tan-y-Castell, Llanuwchllyn  
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA  
ebost:tanycastell@yahoo.com  
(01678) 540652

#### Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

Y Swyddogion

Dr Huw Edwards

Dr R. Geraint Gruffydd

Dr E. Wyn James

Dafydd Glyn Lloyd Hughes

Huw Ceiriog Jones

Rheinallt Llwyd

Richard H. Lewis

Mareddydd ap Huw

Deian ap Rhisiart

## Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân  
hysbysebion i'r **GOLYGYDD**  
**ERBYN ION 22**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r  
**TREFNYDD HYSBYSEBION**  
**ERBYN ION 22**

Copi o'r hysbyseb i'r  
**GOLYGYDD**  
**ERBYN ION 26**



**Gwasg  
Gwynedd**

Cibyn, Caernarfon  
Gwynedd LL55 2BD

**Argraffwyr a  
Chyhoeddwyr**

Ffôn: (01286) 674486

Eisteddwn ar fainc yn yr haul  
ym Mharc Cathays, Caerdydd,  
yn wynebu cerflun mawreddog  
o Arglwydd Aberdâr, a oedd a'i  
lygaid yn syllu ar Goleg y  
Brifysgol lle y bûm i'n fyfyrwr.  
Roedd fy niolch iddo yn fawr pa  
ffordd bynnag yr edrychwn  
arno. O'm blaen y safai yr hwn a  
roddodd ei enw ar y Pwyllgor a  
roes inni ein Ysgolion Cymreig  
Canolraddol. Yn un o'r rhain,  
sef y Porth, fe'm hyfforddwyd i,  
y dysgw'n i ac y dois yn  
brifathro arni am gyfanswm o  
dros ddeugain ac un o  
flynyddoedd. Tù ôl i mi yr oedd  
y coleg a fu'n gyfrifol am fy  
addysg a'r cyfle a yrrodd fi yno  
a'r hyfforddiant yn fy  
mhedwaredd flwyddyn. Roedd  
Cymru wedi cychwyn ei  
datblygiad addysgol hynod yn  
y bedwaredd ganrif ar bymtheg  
o'r brig, gyda llwyddiant Hugh  
Owen yn sefydlu Prifysgol  
Cymru. Nid oedd addysg  
elfennol yn ddigon ar gyfer  
darparu myfyrwyr. Llanwodd  
Deddf Ganolraddol Gymreig  
1889 y bwllch hwn.

Troes fy sylw i bapur newydd  
y cyfnod gyda'i henawdau bras  
'*Revealed: Oxbridge public school  
links*'. Teimlwn rywfaint o  
euogrwydd a'r angen i gyffesu  
yr amryw gysylltiadau y bûm yn  
gymorth i'w creu rhwng yr  
ysgol a Rhydychen a  
Chaergrawnt. Y dolennau oedd  
y disgyblion galluog. Roeddynt  
wedi llwyddo drwy arholiadau  
mynediad a chyfweliadau, ar ôl  
dim ond pedwar tymor yn y  
chweched dosbarth. Gwerth-  
fawrogi'r colegau eu gwerth  
academaidd a dyfarnwyd llawer  
â'r radd dosbarth cyntaf.

Anogai'r colegau geisiadau,  
ac yr oeddynt bob amser yn  
barod eu cyngor. Ymwelai  
tiwtoriaid â'r ysgol a chái  
disgyblion, athrawon a minnau  
ymweld â'r coleg drwy  
wahoddiad. Doedd gennym  
ddim achos i gwyno am  
anffafiaeth dim ond, wrth  
gwrs, ar sail academig gyda  
chymaint â phump yn ennill lle  
yng Ngholegau Rhydychen a  
Chaergrawnt mewn un  
flwyddyn. Awgrymwyd gan rai  
myfyrwyr o gefndiroedd megis  
y Rhondda, nad oeddynt yn  
gwbl gartrefol yn Rhyd-grawnt.  
Yn sicr, nid oedd hyn yn wir am  
ddisgyblion Ysgol Sir y  
Bechgyn, Y Porth. Roedd yna  
Gymdeithas Rhydychen Ysgol  
Sir a chynhelid cinio yng  
ngholeg Corpws Cristi lle yr  
etholwyd un yn Llywydd yr  
Ystafell Gyffredin Ganol ac un  
arall yn Llywydd yr Ystafell  
Cyffredin Iau. Roedd y  
blaenorol yn Gaptin Tim  
Cystadleuol Coleg y Brifysgol a  
chanddo ddigon o hyder i herio  
Bamber Gascoigne ei hun, yn



Cyflwyno Gwobrau Cydnabyddiaeth y Rhondda i Dr. A.B. Oldfield Davies,  
C.B.E., Porth County 1916-1921 gan Owen Vernon Jones;  
i Tom Powell, C.B.E., Porth County 1922-1928 gan Emrys Pride Porth County  
1915-1921

llwyddiannus. Rhoddwyd i'r  
myfyrwr arbennig hwn swydd  
gyda'r teitl o Warchodwr  
Crwban y Coleg. Rwy'n cofio  
mewn un cinio, wftio hyn fel  
teitl ffug, gwag heb unrhyw sail  
mewn gwirionedd. Gwylltiodd  
hyn ddaliwr y teitl a mynnodd  
fy nhwys i'r ardd er gwaetha'r  
tywyllwch. Ond roedd y giât  
wedi ei chloi. Drannoeth, yn fy  
ngŵydd, perswadiodd grwban  
mawr i ddod allan o'r berth.  
Gan nad oedd yn fodlon i'r  
anrhydedd fod yn wybyddus  
dim ond i'w gyd-fyfyrywyr yn  
unig gwahoddodd y rhaglen  
deledu 'Blue Peter' i gynnal ras  
crwban. Roedd yr un mor falch  
o'r swydd hon ag yr oedd o'r  
anrhydedd dosbarth cyntaf  
mewn Mathemateg. Nid yw'n  
syndod, efallai, fod cynnyrch  
Ysgol Sir Y Porth wedi'u hethol  
i'r fath safleoedd yng Ngholeg  
Rhydychen, a dywedodd wrthyf  
ar y ffôn fod ein disgyblion ni o  
Ysgol Y Porth yn rhagori ar  
bawb o unrhyw ysgol arall. Mae  
ef rwan, yn Athro Ffiseg.

Ar yr un adeg, roedd un  
ohonynt yn Athro Downing  
Cyfreithiau Lloegr yng  
Nghaergrawnt. Argymhellodd  
Pwyllgor Aberdâr y dylai fod  
yna chwe ysgol y clasuron yng  
Nghymru i baratoi ar gyfer  
Rhydychen a Chaergrawnt tra  
bod yr ysgolion sir newydd yn  
darparu disgyblion ar gyfer  
Prifysgol Cymru. Cynlluniwyd  
y dylai poblogaeth dalgylch  
ysgol fod o gwmpas 8000.  
Roedd Ysgol Y Porth yn 88350.  
Roedd y gystadleuaeth am  
leoedd drwy osod papurau  
ysgoloriaeth eu hunain yn fwy  
brwd nag mewn unrhyw le arall.  
Derbyniai y goreuon yn yr un  
ffordd â Rhydychen a  
Chaergrawnt. Doedd o ddim yn  
syndod i ni edrych arnynt am  
rai disgyblion. Nid eithriadau  
oeddynt. Cawsom ni bump  
mewn un flwyddyn dros ystod o  
bynciau. Safai disgyblion eu  
harholiadau yn eu pedwerydd

tymor yn y chweched dosbarth.  
Ni chynigiai y Rhondda  
genfdir cyfoethog na  
dylanwadol ond doedd gennym  
ni ddim achos i gwyno yn y  
modd mae ffigyrau cyhoeddus a  
newyddiadurwyr yn ei wneud  
heddiw a doedd gennym  
chwaith ddim rheswm i fod yn  
genfigennus o gysylltiadau  
ysgol breifat â Rhydychen a  
Chaergrawnt.

(Gweler tud 161 o lyfr yr awdur:  
Porth County – The School and its Boys)

Owen Vernon Jones

## Camgymeriad

Dymuna'r golygydd  
gywiro dau wall yn  
erthygl J. Meurig Jones ar  
Edward Richards a ymd-  
dangosodd ar dudalen 12,  
rhiifyn yr Haf Y Casglwr.  
Dylai'r erthygl gychwyn  
gyda:

**Ganwyd Edward Richard  
yn... a gwaelod y drydedd  
golofn: ...Brawd Evan  
Williams y cyhoeddwr  
oedd...**

## YN EISIAU

**Cerddoriaeth Draddodiadol  
Gymreig:**

*Aria di Camera; Ancient British  
Music, John Parry, Rhiwabon;  
Musical and Poetical Relics of  
the Welsh Bards, Edward  
Jones; Original Welsh Airs,  
George Thomson; The Welsh  
Harper, John Parry (Bardd  
Alaw); Alawon fy Ngwlad,  
Nicholas Bennett; neu  
unrhyw gasgliad cyffelyb.  
Hefyd mapiau sirol hynafi-  
aethol Cymru gan Speed,  
Blaeu, Jansson, ayyb.*

Cysyllter â:

Colin Hancock,  
Ty'n Llechwedd Hall,  
Llandre, Aberystwyth,  
Ceredigion, SY24 5BX  
Ffôn: (01970) 828709